

Ymateb i adroddiad Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Reoli Cyflyrau Cronig gan GIG Cymru: Adroddiad Pwyllgor (3) 03-09

Croesawn y canfyddiadau a chynigiwn yr ymateb canlynol i'r pedwar argymhelliad yn yr adroddiad.

1 Argymhelliad Gofynnwn i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i bob un o'r saith argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn.

Derbynnir

Nodir isod y saith argymhelliad a geir yn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a'n hymateb ni i bob un ohonynt:

Argymhelliad SAC - 1

1. Nid oes gan gyrff y GIG ddealltwriaeth ddigon manwl o anghenion gofal iechyd eu poblogaethau lleol na'r galw tebygol am wasanaethau i helpu i lywio penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol ynghylch y gwasanaethau sydd eu hangen i gynorthwyo cleifion â chyflyrau cronig. Dylai gyrff y GIG:

- proffilio eu poblogaethau lleol, asesu anghenion cyfredol a'r galw yn y dyfodol a nodi'r mathau a'r lefelau o ymyriadau sydd eu hangen;
- ymgysylltu'n rhagweithiol â chleifion a chymunedau lleol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau; ac
- ystyried y llif o gleifion ar draws gwasanaethau cymunedau iechyd a gwasanaethau awdurdodau unedol wrth gynllunio gwasanaethau.

Ymateb LICC

Yn 2008/09, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £1.5m o gyllid pontio i Fyrddau Iechyd Lleol (BILI) i gynnal arolwg cwmpasu gwasanaethau ac adolygiad a dadansoddiad o ddata lleol yn ymwneud â chyflyrau cronig, gan gynnwys data'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd a SAC. Mae'n ofynnol i'r BILI ddangos tystiolaeth o ddefnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi eu cynigion Cyllid Pontio ar gyfer 2009 - 2011.

Un o'r prif ffrydiau gwaith yn y rhaglen Arddangoswyr Rheoli Cyflyrau Cronig yw edrych am ffyrdd gwell o gysylltu â chleifion a chymunedau lleol wrth gynllunio gwasanaethau'r dyfodol. Sefydlwyd tri safle i Arddangoswyr i roi prawf ar ddefnyddio'r Model a'r Fframwaith Rheoli Cyflyrau Cronig fel gwasanaeth prif ffrwd trwy Gymru. Mae Cynllun Gwella'r Gwasanaeth Rheoli Cyflyrau Cronig yn argymhell y dylid sefydlu Grwpiau Cynghori ar Wasanaethau i Gleifion i helpu â'r broses hon. Mae'r rhain bellach yn cael eu sefydlu a daw rhagor o'r gwersi a ddysgwyd gan y Grwpiau Cynghori ar Wasanaethau i Gleifion ym mhob BILI i'r amlwg gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â'r cydweithredu ehangach â'r Sector Gwirfoddol a chaiff ei ledaenu trwy gyfrwng Rhaglen Ddysgu ar y Cyd sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd.

Gan gydnabod bod bwch mewn data llinell sylfaen dibynadwy yn ymwneud â phrofiad y claf, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arolwg o brofiadau cleifion yn 2008 i archwilio profiad cleifion o ofal am gyflyrau cronig yng

Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Chwefror 2009 a'i ddsbarthu i Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Pontio BILL er mwyn helpu i lywio eu camau gweithredu lleol a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Ymhlith y prif argymhellion mae:

- Targedu ymdrechion i wella gallu pobl i hunanreoli
- Gwella strategaethau cyfathrebu i bobl â chyflyrau cronig
- Sicrhau nad yw gofal GIG yn cael ei ddarparu ar wahân i'r sbectwm o ofal y mae pobl yn ei gael.

Mae'r Model a'r Fframwaith Rheoli Cyflyrau Cronig (RhCC) yn un rhagweithiol wedi'i seilio ar ragweld anghenion pobl/cleifion trwy ddulliau fel Dull Rhagfynegi Risg Cymru (DRhRC) ac ymateb i'r rhain trwy gyfrwng tîm craidd integredig, gan gynnwys aelodau o'r awdurdodau unedol. Mae'r timau hyn wrthi'n cael eu sefydlu a chânt eu cefnogi trwy gyfrwng cyllid pontio. Mae gwaith ar sefydlu'r rhain yn lleol yn mynd rhagddo ar draws Cymru a chaiff ei ategu oddi mewn i'r adolygiad o wasanaethau sylfaenol a chymunedol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Dr Chris Jones.

Argymhelliad SAC - 2

2. Oherwydd y dulliau cynllunio ac ariannu byrdymor mae gwasanaethau cyflyrau cronig a gofal canolraddol yn y gymuned wedi datblygu ar sail ad hoc mewn modd tameidiog ac nid yw argaeledd y gwasanaethau hyn yn cyd-fynd â'r galw. Dylai cyrff y GIG:

- mapio'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd yn gynhwysfawr, gan asesu eu capasiti ac unrhyw fylchau mewn gwasanaethau neu achosion o ddyblygu gwasanaethau neu unrhyw achosion lle nad yw argaeledd gwasanaethau unigol yn cyd-fynd â'r galw amdanynt;
- ymgorffori'r gwasanaethau cyflyrau cronig a gofal canolraddol yn y gymuned ym mhrosesau darparu gwasanaethau a modelau gofal craidd y GIG; a
- a sicrhau y caiff systemau ar gyfer monitro gwasanaethau yn barhaus eu sefydlu i lywio prosesau cynllunio.

Ymateb LICC

Cynlluniwyd adnoddau pontio o £15m, dros y cyfnod o dair blynedd o 2008/09-2010/11, fel ei bod yn ofynnol defnyddio'r Model a'r Fframwaith RhCC fel gwasanaeth prif ffrwd ar draws Cymru. Gan gydnabod bod y gwasanaethau'n dameidiog, dyrannwyd £1.5m y llynedd i gynnal adolygiad llawn o wasanaethau fel sail i gynlluniau ar gyfer y dyfodol a cheisiadau am gyllid pontio, a bu'n ofynnol oddi mewn i'r broses ymgeisio am gyllid ar gyfer 2009-11 i bob BILL.

Mae ceisiadau am gyllid pontio ar gyfer 2009 -11 yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn erbyn y meini prawf a ddiffiniwyd (sy'n cynnwys prif ffrydio gwasanaeth cymunedol, gwella gwasanaethau, symud gwasanaethau o wasanaethau aciwt i wasanaethau cymuned a monitro a gwerthuso). Caiff hyn ei fesur dros y ddwy flynedd nesaf yn erbyn canlyniadau a bennwyd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn defnyddio setiau data sydd eisoes yn bodoli fel data llinell sylfaen SAC a RhCC.

Mae'r Model a'r Fframwaith RhCC yn dynodi'n glir yr angen i 'symud o sefyllfa dameidiog i integreiddio' trwy gyfrwng tîm craidd gyda Chydgysylltydd Gwasanaethau Gofal dynodedig, yn gweithio ar draws clystyrau meddygon

teulu. Gofynnwyd i bob BILI adeiladu'r model hwn a'i ddefnyddio'n lleol i sicrhau y caiff yr holl adnoddau yn y gymuned, boed statudol, annibynnol neu wirfoddol, eu cydgysylltu a'u cyflenwi'n effeithiol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu gwella a'u bod yn diwallu anghenion ieuchyd unigolion a phoblogaethau. I gael cyllid pontio mae'n ofynnol i BILI sefydlu'r model hwn a bydd yn cael ei reoli yn ôl perfformiad yn unol â hynny. Bydd ceisiadau sy'n cael eu hasesu ar hyn o bryd yn cefnogi swyddi a sefydlir yn lleol yn ystod 12 mis nesaf. Sefydlir systemau rheoli perfformiad i sicrhau cynnydd a chanlyniadau a byddant yn helpu i sicrhau y sefydlir gwell systemau cynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Yn arbennig, bydd y Cydgysylltydd Gwasanaethau Gofal yn ganolog i hyn â chymorth offer fel Dull Rhagfynegi Risg Cymru. Mae'r dull hwn yn gyson â'r hyn a amlinellir yn adolygiad Dr Chris Jones o wasanaethau sylfaenol a chymunedol. Mae rhaglen fanwl a roddir ar waith fesul cam yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i sicrhau ei bod ar gael ar draws Cymru erbyn 2009-10.

Mae'r Model a'r Fframwaith RhCC yn cael ei brofi a'i ddefnyddio ar hyn o bryd yn y tri Arddangosydd RhCC Cenedlaethol ynghyd â threfn ffurfiol i sicrhau bod y gwersi a ddysgir ganddynt yn cael eu lledaenu ar draws Cymru.. Mae Matrics Aeddfedrwydd RhCC yn rhan o broses reoli perfformiad a meincnodi ehangach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y GIG a bydd yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu allweddol a nodir yn y Model a'r Fframwaith RhCC.

Argymhelliad SAC – 3

3. Mae cymunedau ieuchyd yn darparu mathau gwahanol iawn o wasanaethau gofal canolraddol a chyflyrau cronig ac mae lefel y gwasanaeth a ddarperir yn amrywio rhwng gwasanaethau tebyg. Dylai cyrff y GIG:

- ystyried pob agwedd berthnasol ar anghenion y boblogaeth ar draws y pedair haen o ofal, fel y'u nodir ym Model a Fframwaith Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Rheoli Cyflyrau Cronig, gan ddarparu lefel gyson o wasanaeth ar gyfer cleifion ag anghenion tebyg; a
- sefydlu trefniadau ar gyfer cydgysylltu gwasanaethau cyflyrau cronig a thimau craidd fel y nodir ym Model a Fframwaith Llywodraeth y Cynulliad.

Ymateb LICC

Nod y Model a'r Fframwaith RhCC yw sicrhau mwy o gysondeb wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ym mhob un o'r pedair haen o ofal. Bydd hefyd yn cryfhau'r cydweithredu rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd a ddarperir yn y gymuned. Mae Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) RhCC yn cefnogi cyflenwi'r Model a'r Fframwaith ac yn nodi camau gweithredu clir y mae eu hangen i gryfhau gwasanaethau RhCC yn y gymuned.

Mae'r Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar hyn o bryd yn edrych ar dystiolaeth i helpu i lywio datblygiad llwybrau gofal generig ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pob un o'r pedair haen o fewn y Model a'r Fframwaith. Disgwylir adroddiad ar y gwaith hwn erbyn diwedd Mehefin 2009 a bydd yn helpu i wella cysondeb gwasanaethau o ansawdd rhagorol ar draws Cymru.

Mae Cynlluniau Gweithredu Lleol RhCC ar hyn o bryd yn golygu cydweithredu i gynllunio, gweithredu ac ymrwymo ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a gofal

cymdeithasol. Bydd y dull cydweithredol hwn yn helpu i wella a datblygu gwasanaethau cymunedol integredig mwy 'cydgysylltiedig'. Caiff y dull hwn ei brofi a'i atgyfnerthu trwy gyfrwng yr Arddangoswyr RhCC dros amser, a'i gysylltu â chyfundrefn gynllunio integredig oddi mewn i'r GIG diwygiedig.

Argymhelliad SAC – 4

4. Mae arferion atgyfeirio, argaeledd gwasanaethau priodol a'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion a gweithwyr proffesiynol, yn effeithio ar y graddau y mae gwasanaethau cymunedol yn diwallu anghenion cleifion. Dylai cyrff y GIG:

- nodi rôl a chyfraniad ysbytai cymuned a staff yn y gymuned sy'n bodoli eisoes fel rhan o wasanaeth rheoli cyflyrau cronig diffiniedig;
- sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff ar draws y GIG a sefydliadau partner yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned a sut i gael gafael arnynt; a
- sicrhau bod dulliau ehangach o gynorthwyo cleifion i ofalu amdanynt eu hunain, megis addysg i gleifion a mynediad at wybodaeth, yn rhan annatod o'r gwasanaethau a ddarperir, o atal salwch i anghenion gofal cymhleth.

Ymateb LICC

Mae'n hanfodol i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau gael ei seilio ar anghenion lleol. Trwy wneud gofynion gwasanaethau yn eglur a chyflwyno dull clir a chyson, mae'n anrnod y bydd angen rhoi sylw i gynllunio'r gweithlu ac i gyfluniad Ystadau'r GIG. Mae angen i swyddogaeth bwysig ysbytai cymuned a chyfleusterau cymunedol eraill gael ei hystyried gan y BILI lleol o fewn cyddestun ehangach anghenion lleol am wasanaethau ac mewn cydweithrediad clôs â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill. Y ffordd ymlaen yw sicrhau dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau asiantaethau a sectorau a datblygu rhwydweithiau gwasanaeth a gyd-gysylltir yn lleol. Bydd gan ysbytai cymuned a chanolfannau integredig eraill ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gynorthwyo gwasanaethau RhCC yn y gymuned. Bydd angen gwneud mwy o waith i ystyried hyn yn llawnach fel rhan o'r Cynllun Iechyd Gwledig.

Bydd angen manteisio ar gyfleoedd pellach i adeiladu ar seiliau adolygiadau lleol o wasanaethau er mwyn sicrhau bod cleifion a gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r gwasanaethau a ddarperir yn lleol. Edrychir yn fanylach hefyd ar gyfleoedd i gynnwys hyn oddi mewn i un man cyswllt - trwy gyfrwng Galw Iechyd Cymru, er enghraifft - gan gysylltu â Bwydo Gofal Iechyd a'r adolygiad o wasanaethau sylfaenol a chymunedol.

Un o themâu allweddol y Model a'r Fframwaith RhCC yw hunan-ofal. Yn ddiweddar cynhyrchwyd Fframwaith ar gyfer Hunan-ofal â Chymorth i dynnu sylw at fudd posibl cynorthwyo a hyrwyddo hunan-ofal o ran gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru, ac yn arbennig y rhai sy'n byw gyda chyflyrau cronig. Bydd yr Arddangoswyr Cenedlaethol yn edrych ar y strategaethau sydd eu hangen i helpu i ddatblygu hunan-ofal a sicrhau bod pobl yn sylweddoli'r angen i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd yr Athro Mansel Aylward yn cadeirio Bwrdd Hunan-ofal i helpu i symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Argymhelliad SAC - 5

5. Mae cyrff y GIG yn gwneud penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau a buddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer cleifion â chyflyrau cronig yn seiliedig ar wybodaeth ariannol a chlinigol annigonol a gwybodaeth annigonol am berfformiad. Dylai cyrff y GIG:

- datblygu dealltwriaeth dda ac ymateb i'r ffactorau sy'n peri i gleifion gael eu derbyn neu eu haildderbyn i'r ysbyty a'r rhesymau am yr amrywiadau mewn cyfraddau derbyn ar draws eu cymunedau;
- gweithredu system i nodi cleifion sydd mewn perygl o gael eu derbyn neu eu haildderbyn i'r ysbyty neu'r rhai a allai gael budd o gymorth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty;
- nodi'r gyfran sylweddol a chynyddol o gleifion a dderbynnir i'r ysbyty â symptomau neu arwyddion sy'n awgrymu cyflwr cronig fel y gellir mesur y gwir alw a'r costau cysylltiedig llawn yn fanwl gywir;
- asesu cyflawnder ac ansawdd data yn rheolaidd, gan gynnwys pa mor fanwl y mae derbyniadau i'r ysbyty yn cael eu codio, fel bod gwybodaeth at ddibenion cynllunio a rheoli perfformiad yn gyson ac yn ddibynadwy;
- datblygu setiau data cadarn a dibynadwy ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned yn ogystal â systemau ar gyfer monitro a gwerthuso'r setiau data hyn yn barhaus i ategu gweithgarwch cynllunio a rheoli perfformiad;
- a gwerthuso canlyniadau clinigol a chost-effeithiolrwydd gwasanaethau cyflyrau cronig a gofal canolraddol sy'n bodoli eisoes yn fanwl i sicrhau eu bod yn parhau i wella.

Ymateb LICC

Mae cam cyntaf y cyllid pontio a ddyrannwyd i Fyrddau Iechyd Lleol a'r Arddangoswyr RhCC yn 2008/09 wedi eu galluogi i wneud mwy o ddadansoddi gan ddefnyddio setiau data SAC a'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd i baratoi ar gyfer gwella gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys adroddiad cwmpasu gwasanaethau, adolygiad gwasanaethau cymunedol a dadansoddi amrywiaeth o ddata i lywio cynllunio gwasanaethau ynghyd â gwaith paratoi ar gyfer rhoi Dull Rhagfynegi Risg Cymru ar waith fesul cam. Mae angen cyflwyno adroddiadau gyda chynigion ariannu ar gyfer 2010-11. Mae Dull Rhagfynegi Risg Cymru wedi defnyddio data gofal sylfaenol ac eilaidd dwy flynedd yn ôl-weithredol i ddatblygu sail i benderfynu beth yw'r risg o dderbyn i'r ysbyty, mewn haenau ar draws pedair lefel y Model RhCC. Defnyddir hyn i helpu i ragweld y rhai y mae'r perygl mwyaf iddynt gael eu derbyn ac i roi ymyriadau cynnar ar waith i'w rhwystro.

Bu'r Prosiect Gofynion Gwybodaeth Cymunedol y disgwylir adroddiad ganddo ym mis Mai 2009 yn adolygu cyflyrau cronig a gwybodaeth gymunedol a bu adrannau ystadegau, cyllid a pholisi iechyd yn cydweithio mewn partneriaeth. Bydd hyn yn helpu i lywio datblygu setiau data mwy trylwyr a dibynadwy yn y dyfodol ac i ganfod bylchau neu brosesau gwybodaeth hen-ffasiwn yn ymwneud â chyflyrau cronig. Defnyddir hynny i gryfhau gwybodaeth gymunedol a rhoi gwybodaeth am y galw heddiw ac yfory. Cynhelir ymarferion i ganfod y cynnydd blynyddol yn erbyn y Matrics Aeddfedrwydd a dangosyddion llinell sylfaen ym mis Mehefin 2009.

Cafodd fframwaith monitro a gwerthuso ei ddatblygu hefyd i fonitro effaith y Model a'r Fframwaith RhCC yn lleol a chenedlaethol ac i helpu i fesur cynnydd yn erbyn amcanion ac i ddynodi a rhannu gwersi allweddol. Mae'n ofynnol i bob BILL fonitro a gwerthuso effaith a chanlyniadau eu dyraniadau Cyllid Pontio yn ogystal â'r gwelliannau cyffredinol mewn gwasanaethau o ran canlyniadau clinigol a chost effeithiolrwydd.

Argymhelliad SAC - 6

6. Mae cyrff y GIG wedi'i chael yn anodd dod o hyd i atebion ariannu cynaliadwy i ategu'r gwaith o ail-gyflunio gwasanaethau rhwng ysbytai aciwt a'r gymuned. Er gwaethaf yr arian a neilltuwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y tair blynedd nesaf, dylai cyrff y GIG:

- ailgyfeirio'r adnoddau a wariwyd ar wasanaethau wedi'u dyblygu neu wasanaethau aneffeithlon o safbwynt y gost;
- nodi'r union ddiwrnodau gwely y gellir eu rhyddhau ac ailgyfeirio'r adnoddau hyn i ategu gofal mewn lleoliadau nad ydynt mewn ysbytai;
- ail-fuddsoddi mewn ymyriadau cynnar a rhaglenni atal wedi'u targedu ar gyfer grwpiau o gleifion risg uchel; a
- gwneud mwy o ddefnydd o gyllidebau cyfun a chyfleoedd i integreiddio gwasanaethau gyda sefydliadau partner.

Ymateb LICC

Bydd ail-gyflunio'r GIG yng Nghymru yn saith BILL integredig yn canoli cynllunio a rheolaeth ariannol, gyda phwyslais ar gryfhau gwasanaethau cymunedol. Dylai hyn ganiatáu'n fwy hwylus ar gyfer gwario adnoddau'n effeithlon ac osgoi dyblygu gwasanaethau. Bydd y broses hon hefyd yn golygu y bydd angen canoli gwybodaeth a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a chryfhau rhyddhau adnoddau oddi wrth ddiwrnodau gwely a'u rhoi i wasanaethau cymunedol. Mae systemau cynllunio a pherfformiad integredig yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i roi ystyriaeth i'r newidiadau.

Bydd mwy o integreiddio ar gynllunio a chyflenwi gwasanaethau, ynghyd â'r gallu i ragfynegi risg, yn galluogi BILL i bennu ac anelu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth at y rhai y mae fwyaf o risg iddynt ynghynt yn y broses. Bydd dulliau fel y llwybr gofal generig yn cefnogi hynny a bydd hefyd yn helpu i sicrhau gwell integreiddio ar wasanaethau gyda phartneriaid eraill fel awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Cwblheir y gwaith hwn erbyn Hydref 2009 a bydd yn sail bellach i fonitro gwelliannau.

Caiff canllawiau cynllunio integredig a fydd yn ystyried y diwygiadau i'r GIG eu cynhyrchu gan LICC erbyn Hydref 2009. Bydd hyn yn gyfle i sicrhau ail-greu cydbwysedd o ran adnoddau gofal sylfaenol ac eilaidd ac yn atgyfnerthu cyfleoedd i ddefnyddio cyllidebau cyfun.

Argymhelliad SAC - 7

7. Mae Model a Fframwaith Integredig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Rheoli Cyflyrau Cronig yn seiliedig ar ddarparu pecynnau gofal cydgysylltiedig. Fodd bynnag, yn ymarferol, ni reolir gwasanaethau ar gyfer cleifion â chyflyrau cronig mewn ffordd gyfannol a chynaliadwy. Dylai cyrff y GIG:

- atgyfnerthu gwaith amlddisgyblaethol a chydweithio drwy'r tîm

cymunedol craidd ar draws y nifer fawr o asiantaethau sy'n ymwneud â darparu gofal, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol;

- gwneud trefniadau ar gyfer cydgysylltu argaeledd gwasanaethau ar draws darparwyr iechyd, darparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr y sector gwirfoddol a sicrhau y gellir cael gafael ar y gwasanaethau hynny yn hawdd;
- cysoni cynlluniau lleol i hyrwyddo ac ategu modelau gofal yn y gymuned â fframweithiau a chynlluniau strategol awdurdodau unedol sy'n bartneriaid; a
- datblygu gweithgarwch cynllunio'r gweithlu, wedi'i gysoni â'r Model a'r Fframwaith Integredig, a modelau gofal system gyfan, gan nodi'r rolau a'r sgiliau cywir a maint cywir y gweithlu ar draws cymunedau iechyd a gofal cymdeithasol i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau staff.

Ymateb LICC

Bydd Cyllid Pontio yn cefnogi datblygu a phrif ffrydio Model RhCC Cymru mewn gwasanaethau cymunedol a'r newid o wasanaethau gofal eilaidd i wasanaethau cymunedol lleol. Mae ceisiadau am gyllid gyfer 2009/10 yn cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd yn unol â'r meini prawf hyn:

- gwell integreiddio a chydgyssylltu gwasanaethau, gan gynnwys tîm craidd ac un person cyswllt
- gwella gwasanaethau a symud o wasanaethau eilaidd i ofal yn y gymuned
- monitro a gwerthuso'r canlyniadau a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau.

Cynhyrchodd BILI Gynlluniau Gweithredu Lleol tair blynedd yn 2008 i sicrhau cydweithredu wrth gynllunio, gweithredu ac ymrwymo ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymdeithasol. Nod y dull cydweithredol hwn yw gwella a datblygu gwasanaethau cymunedol integredig mwy 'cydgysylltiedig'. Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr Pontio wedi cyflwyno Cynlluniau Cyflenwi Lleol ar gyfer cyflyrau cronig fel rhan o'r broses Fframwaith Gweithredu Blynyddol sy'n adeiladu ar seiliau'r Cynlluniau Gweithredu Lleol sy'n rhan ohono. Caiff cynnydd ei reoli ar sail y broses o adolygu perfformiad trwy gydol 2009/10 ac yn gyson wrth i'r GIG gael ei aildrefnu. Datblygwyd prosesau rheoli perfformiad a chytunwyd arnynt rhwng Arweinwyr Polisi, yr Is-adran Rheoli Perfformiad a'r Swyddfeydd Rhanbarthol.

Mae'r Arddangoswyr RhCC yn ymchwilio ac yn profi'r goblygiadau o ran datblygu'r gweithlu oddi mewn i Fodel a Fframwaith RhCC gyda phwyslais arbennig ar swyddogaethau newydd fel y Cydgysylltydd Gofal RhCC. Bydd yr Arddangoswyr yn rhannu'r gwersi a ddysgir ar draws Cymru wrth i'r rhaglen ddatblygu.

2 Argymhelliad

Rydym yn argymhell fod Llywodraeth y Cynulliad yn darparu adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mehefin 2009, gan nodi canlyniadau'r adolygiad gwybodaeth gwasanaethau cymunedol a'r cynnydd a wnaed o ran sefydlu dangosyddion clinigol, gwasanaeth ac

ariannol.

Derbynnir

Sefydlwyd yr Adolygiad Gwybodaeth Gwasanaethau Cymunedol i ddadansoddi'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn y gymuned i gynorthwyo rheoli cyflyrau cronig, ymchwilio i anghenion rhanddeiliaid allweddol ac archwilio'r cysylltiadau â phrosiectau cysylltiedig. Mae'n ceisio dynodi'r prif bethau sy'n atal cynnydd a'r meysydd y dylid canolbwyntio arnynt er mwyn symud ymlaen.

Mae adroddiad yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a darperir adroddiad diweddar i'r Pwyllgor ddiwedd mis Mehefin 2009. Gwneir nifer o argymhellion allweddol yn yr adroddiad gan gynnwys:

- 1.1. 1. Dull strategol: icrhau cydgysylltu prosiectau datblygu cyfredol.
2. Iaith gyffredin: set y cytunwyd arnynt o dermau a diffiniadau ar gyfer gwybodaeth am gyflyrau cronig
3. Dulliau cyffredin: sicrhau bod dulliau priodol o fonitro statws iechyd a chanlyniadau cleifion yn cael eu hymchwilio a'u cymeradwyo.
Cyllid.

3

Argymhelliad

Rydym yn argymhell fod Llywodraeth y Cynulliad yn trefnu system i ledaenu dysgu o'r safleoedd arddangosol o ran yr hyn sy'n gweithio, er mwyn galluogi cyrff eraill y GIG i fanteisio arnynt ymhell cyn y digwyddiad dysgu ar y cyd a gynlluniwyd ar gyfer 2010. Hefyd, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ddangos bod trefniadau monitro cadarn yn eu lle i gadw llygad ar effaith arian pontio mewn cymunedau iechyd eraill a dylai gyflwyno'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn.

Derbynnir

Sefydlwyd y tri Arddangosydd RhCC (Caerfyrddin, Caerdydd a G Cymru) i ganolbwyntio ymdrechion, cefnogaeth ac adnoddau mewn ardaloedd penodol ac i brofi'r Model a'r Fframwaith RhCC ar draws ffiniau sefydliadau. Bydd y gwersi a'r atebion ymarferol sy'n deillio o'r rhaglen Arddangoswyr i gefnogi'r Model a'r Fframwaith yn cael eu lledaenu ar draws Cymru i ategu'r broses brif ffrydio.

Mae'r tri safle arddangosol yn cael eu rhedeg o dan raglen waith genedlaethol i rannu'r dysgu, y dystiolaeth a'r camau gweithredu trwy gydgysylltu a chanolbwyntio gweithredu. Mae cyfathrebu effeithiol ac ymwneud â'r rhanddeiliaid iawn yn hanfodol er mwyn sicrhau neges gyson ac mae cynllun cyfathrebu yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer y rhaglen Arddangoswyr i sicrhau y gellir rhannu gwersi ar draws Cymru yn rheolaidd a chyson. Caiff hyn ei gwblhau erbyn Ebrill 2009. Mae datblygiadau cynnar a phrofiadau dysgu eisoes wedi eu rhannu ag arweinydd RhCC a'r Grŵp Gweithredu RhCC ar lefel genedlaethol a bydd gweithdy dysgu ar gyfer pob arweinydd RhCC yng Nghymru yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2009 i rannu profiad yr

Arddangoswyr a'r hyn a ddysgwyd ganddynt hyd yma. I sicrhau llywodraethu effeithiol ac atebolrwydd o fewn yr Arddangoswyr, mae'r Grŵp Llywio Arddangoswyr Cenedlaethol wrthi'n ymweld â phob safle i asesu eu perfformiad hyd yma, gan adrodd ar fesurau ac amcanion ar gyfer 2009/10.

Fel rhan o'r broses Cyllid Pontio, gofynnwyd i bob corff iechyd gyflwyno cynlluniau gwariant clir yn rhoi manylion am eu hamcanion, eu costau, tystiolaeth o gynnyrch a chanlyniadau, cynaliadwyedd a chynllun gwerthuso clir. Ystyriwyd pob cais gan Banel Cyllido Ymgynghorol i sicrhau bod pob cais yn ateb y meini prawf a'r amodau ar gyfer cyllido. Bydd swyddogion yn ymweld â safleoedd i sicrhau cydymffurfio yn ystod Hydref 2009.

Cynhwysir monitro cynlluniau gwariant Cyllid Pontio yn y fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer y rhaglen waith RhCC. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar gynnydd yn chwarterol ar gyfer adolygiadau o berfformiad a thystiolaeth o gynnydd yn erbyn y dangosyddion llinell sylfaen RhCC a'r matrices aeddfedrwydd RhCC bob blwyddyn. Bydd angen adroddiad canol blwyddyn ar gynnydd yn erbyn cynlluniau gwariant gwreiddiol yn ystod 2009/10 gan gyrff newydd y GIG, er mwyn cadarnhau cyllid y flwyddyn ganlydol.

4 Argymhelliad

Rydym yn argymhell fod y cyfarwyddwyr pontio yn adolygu'r cynlluniau a'r cynigion lleol ar gyfer gweithredu Model a Fframwaith cyflyrau cronig ar frys er mwyn sicrhau y cânt eu halinio wrth arwain at yr ad-drefnu er mwyn sicrhau na fydd oedi wrth wneud cynnydd.

Derbynnir

Adolygodd pob un o gyrff y GIG ei Gynlluniau Gweithredu Lleol ar gyfer gweithredu'r Model a'r Fframwaith cyflyrau cronig yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2009 ac mae pob Cyfarwyddwr Pontio wedi cyflwyno Cynllun Cyflenwi Lleol ar gyfer cyflyrau cronig, wedi ei alinio â strwythurau trefniadol newydd y GIG.

Mae'r Cyfarwyddwyr Pontio hefyd wedi cyflwyno cynlluniau gwariant ar gyfer Cyllid Pontio RhCC ar gyfer y cyfnod o 2009/10. Mae'r cynlluniau hyn yn ymwneud â'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynlluniau Cyflenwi Lleol a rheolir cynnydd yn barhaus ar sail perfformiad gan LICC trwy gydol yr ad-drefnu ar y GIG.

Bydd yr ad-drefnu sy'n digwydd i'r GIG yn gyfle rhagorol i sefydliadau newydd sicrhau bod gofal sylfaenol a'r sector gwirfoddol yn dod yn bartneriaid llawn yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ar gyfer cleifion sydd â chyflyrau cronig. Bydd AGAAGI a LICC yn cynnal gweithdai i ategu hynny yn ymarferol.